

GWASANAETHAU RHEOLEIDDIO A THAI
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY

AMODAU TRWYDDED AR GYFER SIOPAU
ANIFEILIAID ANWES

Cynnwys

1. AMODAU CYFFREDINOL

- 1.1 Dangos Trwydded
- 1.2 Yr Archwiliad

2. LLETY AC AMGYLCHEDD

- 2.1 Adeiladwaith
- 2.2 Dwysedd Stoc
- 2.3 Gwely
- 2.4 Tymheredd a Gwres
- 2.5 Golau
- 2.6 Awyru
- 2.7 Glanweithdra
- 2.8 Anifeiliaid Gwyllt Peryglus (AGP)
- 2.9 Rheoli Plâu
- 2.10 Cael Gwared ar Wastraff

3. DIET A MAETH

- 3.1 Bwyd a Diod
- 3.2 Paratoi Bwyd a Chyfleusterau Storio

4. YMDDYGIAD ARFEROL

- 4.1 Ymarfer Corff
- 4.2 Ategolion
- 4.3 Cwmni

5. IECHYD A LLES

- 5.1 Cofrestru gyda Milfeddyg
- 5.2 Statws Iechyd
- 5.3 Rheoli Afiechyd
- 5.4 Arwahanu
- 5.5 Goruchwyllo
- 5.6 Ymaddasu

- 5.7 Gwerthu Anifeiliaid
- 5.8 Cludo

6. HYFFORDDIANT STAFF A GWYBODAETH AM ANIFEILIAID

- 6.1 Hyfforddiant
- 6.2 Gwybodaeth
- 6.3 Cyngor ar sut i Ofalu am Anifeiliaid Anwes

7. CADW COFNODION A THREFNAU

- 7.1 Cofrestrau
- 7.2 Gwerthu

8. RHAGOFALON TÂN A RHAGOFALON ERAILL

- 8.1 Cynlluniau Gwagio
- 8.2 Rhagofalon Tân
- 8.3 Daliwr Goriadau a Mynediad
- 8.4 Diogelwch Trydanol ac Argyfyngau Posibl

9. DEDDF LLES ANIFEILIAID 2006

- 9.1 Dyletswydd Gofal
- 9.2 Cymdeithasu
- 9.3 Protocol Gwaredu

ARGYMHELLIAD

Lefel Anhawster

MATERION ERAILL YN YMWNEUD Â GWEITHREDU

SEFYDLIAD TRWYDDEDIG

- A – Trefn Apeliadau
- B – Canllaw Rhagofalon Tân
- C – Iechyd a Diogelwch

ATODLENNI ATODOL

- Atodlen 1 – Atodlen AGP
- Atodlen 2 – Lefel Anhawster

1. Amodau Cyffredinol

Amod y Drwydded	Canllaw
1.1 Dangos Trwydded a. Rhaid dangos copi o'r drwydded a'i hamodau cysylltiedig yn addas i'r cyhoedd mewn lle amlwg yn, neu o amgylch y Siop Anifeiliaid Anwes.	
1.2 Yr Archwiliad a. Yr holl anifeiliaid a gedwir ar y safle a ystyrir fel y 'busnes o werthu anifeiliaid fel anifeiliaid anwes', ac felly byddant yn agored i archwiliadau trwyddedu.	

2. Llety ac Amgylchedd

Rhaid cadw anifeiliaid bob amser mewn llety sy'n addas i'w rhywogaeth mewn perthynas ag adeiladwaith, maint, tymheredd, golau, awyru, glendid a diogelu rhag niwed. Rhaid i'r llety fod o fath sy'n caniatáu arddangos ymddygiad naturiol.

Amod y Drwydded	Canllaw
2.1 Adeiladwaith a. Rhaid i bob lle byw fod wedi ei greu o ddeunyddiau y gellir eu glanhau yn rhwydd ac yn drylwyr ac yn addas ar gyfer y rhywogaeth. b. Ni ddylid cadw anifeiliaid mewn llety yn y fath fodd y	Dylid rhoi pwyslais ar sicrhau fod maint y llety a'r deunyddiau a ddefnyddir yn addas ar gyfer y rhywogaeth sy'n cael ei chadw a bod y llety'n cael ei gadw mewn cyflwr da. Dylid dylunio ac adeiladu pob llety mewn modd sy'n caniatáu anifeiliaid i symud yn naturiol e.e. dringo, hedfan, nofio neu

<p>byddai'n caniatáu i anifeiliaid eraill neu'r cyhoedd ymyrryd â nhw, na chaniatáu iddynt ddianc.</p> <p>c. Rhaid diogelu pob llety yn ddigonol.</p>	<p>neidio.</p> <p>Dylid gosod arwyddion sy'n atal ymyrraeth gan y cyhoedd a dylai'r llety fod wedi'i gloi fel sy'n briodol.</p>
<p>2.2 Dwysedd y Stoc</p> <p>a. Caiff y nifer uchafswm o anifeiliaid i'w cadw yn yr eiddo ei lywodraethu gan y llety sydd ar gael ac ni ddylai fod yn uwch na'r hyn a nodir ar yr Atodlen sy'n cyd-fynd â'r drwydded.</p> <p>b. Rhaid cynnal pob acwariwm o fewn y safonau dŵr isafswm a argymhellir gan y diwydiant i sicrhau ansawdd dŵr addas.</p> <p>c. Rhaid gwirio ansawdd dŵr yn rheolaidd.</p>	<p>Gweler canllawiau'r Pet Care Trust ar ddwysedd stoc ac ansawdd dŵr.</p> <p>Mae rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r isafswm o ran safonau dŵr i'w gael hefyd gan yr Ornamental Aquatic Trade Association (OATA) www.ornamentalfish.org</p>
<p>2.3 Gwely</p> <p>a. Bydd y math o wely a ddefnyddir yn dibynnu ar yr anifail a gedwir. Rhaid darparu cyfaint digonol i alluogi'r anifail i deimlo'n ddiogel a chynnes.</p>	<p>Angen iddo fod yn lân, sych ac yn rhydd o barasitiaid a lle bo hynny'n ymarferol mor agos â phosibl i amgylchedd naturiol y rhywogaeth.</p>
<p>2.4 Tymheredd a Gwres</p> <p>a. Rhaid cynnal tymheredd llety unigol o fewn ystod sy'n addas ar gyfer y math penodol o rywogaeth a gedwir.</p> <p>b. Os yw'r anifeiliaid yn cael eu harddangos y tu allan rhaid iddynt fod wedi'u diogelu'n ddigonol rhag y tywydd.</p>	<p>Gallai hyn gynnwys gosod thermomedrau tymheredd uchaf / isaf yn yr amgylcheddau unigol, yn ôl yr angen i sicrhau fod tymheredd yn cael ei fonitro'n gywir ac yn barhaus.</p> <p>Dylai hyn gynnwys cysgod rhag y gwynt, y glaw neu'r eira ac / neu'r haul ac ysglyfaethwyr os yw'n briodol.</p>

<p>2.5 Golau</p> <ul style="list-style-type: none"> a. Rhaid gosod golau sy'n addas ar gyfer y rhywogaeth ym mhob llety. b. Ym mhob achos, dylai cyfnodau goleuo ddynwared patrymau golau dydd naturiol sy'n gweddu'r rhywogaeth a gedwir. 	<p>Mae'n bwysig defnyddio golau sy'n benodol ar gyfer y rhywogaeth ac mae hyn yn arbennig o bwysig o safbwynt rhai rhywogaethau o ymlusgiaid. Dylai fod yn addas i'r rhywogaethau nosol.</p> <p>Dylid gofyn am gyngor arbenigol dan unrhyw amgylchiadau.</p>
<p>2.6 Awyru</p> <ul style="list-style-type: none"> a. Rhaid darparu awyru digonol i lety bob anifail heb achosi drafft gormodol. 	<p>Mae awyru'n bwysig er mwyn cynorthwyo gyda rheoli afiechyd ac mae'n atal lleithder atmosfferig gormodol. Gall lledaeniad heintiau yn yr awyr beri risg sylweddol, hefyd gallai lleithder gormodol neu annigonol achosi problemau iechyd eraill.</p>
<p>2.7 Glendid</p> <ul style="list-style-type: none"> a. Rhaid glanhau'r llety mor aml ag sydd angen i gynnal safonau hylendid da, sy'n cyd-fynd â'r gyfradd trosiant stoc. b. Lle bod llety ar system rhengoedd rhaid caniatáu i ddŵr, bwyd neu wastraff arall gyrraedd y llety ar y lefel isaf. c. Rhaid glanhau a diheintio llety cyn dod ag unrhyw stoc newydd i mewn ac fel arall o leiaf unwaith bob mis. 	<p>Dylid cael gwared ar fwyd a dŵr sydd wedi difetha heb oedi. Dylid cael gwared ar ddeunydd gwely wedi baeddu yn gyson (o leiaf unwaith y dydd) er mwyn cynnal amgylchedd glân ac iach. Nid yw'n fwriad i hyn gynnwys systemau acwariwm ail gylchredeg a hidlo.</p>

<p>2.8 Anifeiliaid Gwyllt Peryglus</p> <ul style="list-style-type: none"> a. Lle bod Anifeiliaid Gwyllt Peryglus (AGP) yn cael eu cadw yn yr eiddo, rhaid eu cadw mewn llety priodol wedi'i gloi'n ddiogel, gydag arwyddion rhybuddio ac yn unol â phob amod perthnasol a nodir yn Neddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976. b. Rhaid hysbysu'r Awdurdod Lleol am y bwriad i gadw ac/neu werthu unrhyw rywogaethau ar yr atodlen AGP. c. Ni ddylid cadw'r anifeiliaid hyn nes bod y caniatâd ysgrifenedig wedi'i dderbyn gan yr awdurdod trwyddedu d. Bydd yr anifeiliaid hyn yn cael eu harchwilio fel eu bod yn cael eu cadw dan drwydded AGP. e. Pan fod AGP yn cael eu cadw i'w gwerthu, mae'n rhaid gosod rhybudd yn hysbysu cwsmeriaid posibl o'r angen iddynt dderbyn trwydded AGP cyn prynu. f. Bydd Aseiad Risg priodol o rywogaeth y AGP a gedwir yn cael ei ddarparu i'r awdurdod trwyddedu cyn y rhoddir caniatâd. 	<p>Dylai deiliad y Drwydded fod yn hollol gyfarwydd â'r gofynion mewn perthynas â Deddf Anifeiliaid Gwyllt peryglus 1976, a chadw at y gofynion hynny.</p> <p>Gweler y rhestr gyfredol o Anifeiliaid Gwyllt Peryglus yn Atodlen 1 ynghlwm.</p>
<p>2.9 Rheoli Plâu</p> <ul style="list-style-type: none"> a. Rhaid cymryd pob rhagofal angenrheidiol i atal llygod, pryfed a phlâu eraill rhag cael mynediad i'r eiddo. (Ac eithrio rhai sydd ar werth neu ar gyfer bwydo). b. Rhaid llunio cynllun rheoli fermin a chadw ato. 	<p>Gellir sicrhau hyn drwy gael contract gyda chwmni rheoli plâu ar gyfer ymweliadau rheolaidd.</p>
<p>2.10 Cael gwared ar Wastraff</p> <ul style="list-style-type: none"> a. Rhaid storio pob ysgarthion a deunydd gwely a faeddwyd mewn cynhwysyddion anhydraidd gyda chaeadau sy'n 	<p>Dylai'r eiddo gynnal contract ar gyfer gwaredu gyda chwmni priodol a chadw ar reoliadau'r awdurdod lleol.</p>

<p>cau'n dynn.</p> <p>b. Rhaid mynd ag ysgarthion, deunydd gwely a faeddwyd a bwyd gwastraff oddi ar yr eiddo yn rheolaidd, o leiaf unwaith yr wythnos, a'u gwaredu mewn modd sy'n bodloni'r awdurdod lleol priodol ac yn unol â rheoliadau a threfnau rheoli gwastraff da.</p> <p>c. Yn yr un modd, rhaid gwaredu â stoc marw mewn modd priodol.</p> <p>d. Rhaid cadw pob cynhwysydd mewn cyflwr glân.</p>	<p>Wrth aros i ysgarthion a deunydd gwely a faeddwyd gael eu gwaredu, dylid eu storio mewn modd sy'n lleihau'r risg o arogleuon a niwsans plâu gymaint â phosibl.</p> <p>Dylid cyflwyno trefniadau priodol ar gyfer cael gwared ar anifeiliaid marw.</p>
--	--

3. Diet a Maeth

Rhaid darparu symiau addas o fwyd i anifeiliaid sy'n addas i'w rhywogaeth, yn briodol i'w hanghenion, ac ar amseroedd addas.

Amod y Drwydded	Canllaw
<p>3.1 Bwyd a Diod</p> <p>a. Rhaid cyflenwi diet i bob anifail sy'n addas i'w rhywogaeth a'u hoed.</p> <p>b. Rhaid newid bwyd sy'n pydru unwaith y dydd.</p> <p>c. Rhaid i ddŵr ffres, glân fod ar gael bob amser a'u newid o leiaf unwaith y dydd.</p> <p>d. Rhaid iddi fod yn bosibl i lanhau a diheintio cynhwysyddion bwyd a diod yn rhwydd a dylid eu gosod mewn modd sy'n lleihau'r posibilrwydd o heintio gan ysgarthion.</p> <p>e. Dylid darparu nifer digonol o gynhwysyddion ar gyfer y nifer o anifeiliaid a gedwir er mwyn dileu cystadleuaeth wrth fwydo a dylent fod yn hawdd i'w glanhau o leiaf</p>	<p>Dylid rhoi sylw penodol i'r egwylliau rhwng bwydo a'r mathau o fwyd a roddir i bob anifail gan ddibynnu ar eu hoed, grŵp rhywogaeth a gofynion fitaminau a mwynau ychwanegol sydd angen i sicrhau bod anghenion maethiad ac iechyd sylfaenol yn cael eu diwallu e.e. Mae angen cyflenwad cyson o wellt ffres ar gwningod i gynnal iechyd deintyddol a gastroberfeddol.</p> <p>Mae heintio ysgarthion ac wrin yn peri risg sylweddol i iechyd, a dylid mynd â chynhwysyddion bwyd neu ddiod i fwrdd a'u glanhau heb oedi.</p> <p>Dylid glanhau pob cynhwysydd yn drwyadl cyn eu trosglwyddo</p>

unwaith y dydd.	rhwng grwpiau unigol o anifeiliaid.
<p>3.2 Storio Bwyd</p> <p>a. Dylid cadw pob bwyd, ac eithrio bwyd byw, a fwriadwyd ar gyfer bwydo anifeiliaid ar yr eiddo mewn cynhwysyddion anhydrin wedi'u cau.</p> <p>b. Rhaid clirio unrhyw fwyd a gollwyd yn brydlon er mwyn osgoi denu fermin.</p> <p>c. Rhaid cadw'r cynhwysyddion a'r offer a ddefnyddir ar gyfer bwydo mewn cyflwr glân.</p>	<p>Rhaid glanhau cynhwysyddion storio bwyd yn drwyadl rhwng dognau o fwyd, a rhaid golchi offer bwydo bob tro ar ôl eu defnyddio.</p>

4. Ymddygiad Arferol

Rhaid cadw pob rhywogaeth mwn amgylchedd sy'n eu galluogi i ymddwyn yn arferol a chynnig ymarfer corff digonol e.e. tyllu, ymolchi, dringo a chuddio.

Amod y Drwydded	Canllaw
<p>4.1 Ymarfer Corff</p> <p>a. Rhaid i gyfleusterau ymarfer corff fod ar gael ar gyfer yr anifeiliaid lle bod hynny'n briodol.</p>	<p>Rhaid i anifeiliaid arddangos patrymau ymddygiad arferol ac mae'n bosib y bydd hyn yn golygu bod angen darparu gofod ar gyfer ymarfer corff ac / neu ategolion priodol.</p> <p>Gyda chŵn bach, rhaid darparu lloc ymarfer corff a rhaid cael amgylchedd gyda mwy nac un lefel ar gyfer cathod bach).</p> <p>Lle bo hynny'n berthnasol, dylid defnyddio cyfleusterau ymarfer corff o ddydd i ddydd a dylid ffurfio cynlluniau ymarfer corff ar gyfer y rhai a fyddai'n elwa o ymarfer corff ychwanegol y tu allan i'w lle byw arferol.</p>

<p>4.2 Ategolion</p> <p>a. Rhaid darparu ategolion i wella'r amgylchedd a rhaid iddynt fod yn addas ac yn ddigonol ar gyfer y rhywogaeth.</p>	<p>Dylid darparu cyfleusterau digonol ar gyfer rhywogaethau sy'n mwynhau cael preifatrwydd, fel bod modd i bob anifail fwynhau bod ar ben eu hunain ar yr un pryd. Rhaid darparu diogon o glwydau er mwyn caniatáu i bob aderyn glwydo ar yr un pryd</p> <p>Dylid darparu digon o swbstrad (llaesod caets) penodol ar gyfer y rhywogaeth a dylid darparu digon o ddodrefn caets er mwyn iddynt fedru ymddwyn yn naturiol (e.e. deunyddiau ar gyfer rhywogaethau sy'n tyrchu, canghennau ar gyfer rhywogaethau sy'n byw mewn coed / dringo ac ati).</p>
<p>4.3 Cwmni</p> <p>a. Rhaid cadw anifeiliaid mewn grwpiau cymdeithasol sy'n addas i fodloni eu hangen i gael cwmni.</p> <p>b. Rhaid i ddeiliaid trwyddedau ystyried cystadleuaeth ac ymladdgarwch mewn grwpiau sydd angen ei osgoi.</p> <p>c. Rhaid cadw rhywogaethau ar wahân oni bai fod prawf eu bod yn cyd-fynd.</p>	<p>Dylid cadw anifeiliaid (oni bai eu bod yn rhywogaeth sy'n byw mewn unigedd) mewn grwpiau sy'n sicrhau bod y posibilrwydd o fridio diwahaniaeth mor isel â phosib.</p> <p>Nid yw Cwningod a Moch Cwta yn cyd-fynd yn llwyr, a'r arfer gorau yw na ddylid eu cadw gyda'i gilydd. e.e. gwahanol ofynion maeth a'r posibilrwydd o fwlio / casineb sy'n gallu cynyddu wrth iddynt aeddfedu.</p>

5. Iechyd a Lles

Dylai iechyd yr holl stoc fod yn dda wrth iddynt gael eu gwerthu cyn belled ag y gellir pennu hynny yn rhesymol heb archwiliad milfeddygol. Rhaid i unrhyw anifail sy'n sâl neu wedi anafu dderbyn gofal priodol a thriniaeth heb oedi. Dylid gofyn am gyngor milfeddygol lle bod hynny'n bosibl.

Amod y Drwydded	Canllaw
5.1 Cofrestru gyda Milfeddyg a. Rhaid i bob eiddo fod wedi'i gofrestru gyda milfeddyg.	Yn ddelfrydol, milfeddyg lleol sy'n arbenigo yn y rhywogaethau a gedwir ac a werthir yn y siop anifeiliaid anwes (anifeiliaid bychan / ymlusgiaid ac ati lle bo hynny'n berthnasol).
5.2 statws iechyd a. Rhaid cynnal archwiliad dyddiol o bob anifail i wirio am unrhyw arwyddion o boen, dioddef, anaf neu afiechyd. b. Rhaid i unrhyw anifail sy'n sâl neu wedi'i anafu dderbyn gofal a thriniaeth briodol heb oedi. Dylid gofyn am gyngor milfeddygol lle bynnag fod angen. c. Ni ddylai unrhyw anifail sy'n derbyn triniaeth filfeddygol fod yn agored i'w werthu nes bod pob triniaeth wedi dod i ben a bod yr anifail wedi adennill iechyd llawn.	Mae gan geidwaid 'Ddyletswydd Gofal' dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006. Mae Adran 9 yn diffinio'r angen i ddarparu 'pum rhyddid' i bob anifail. Un o'r rhain yw ei angen i gael ei <i>Ddiogelu rhag Poen, Anaf neu Afiechyd</i> . Fel sy'n ymarferol, dylai hyn ddigwydd oddi ar lawr y siop i alluogi adferiad distaw ac i atal gwerthu mewn camgymeriad. Lle nad yw hyn yn bosibl, fel safon isafswm dylai fod nodyn yn nodi 'dim ar werth' / 'yn derbyn triniaeth ar hyn o bryd'.
5.3 Rheoli Afiechydon a. Rhaid cymryd pob cam rhesymol i atal achosion o afiechydon a'u lledaeniad. b. Ni ddylai unrhyw anifail sy'n dioddef o, neu yr amheuir sydd wedi cael cyswllt ag unrhyw anifail sy'n dioddef o	Dylai pob anifail dderbyn brechiadau priodol lle bod angen ar gyfer y rhywogaeth ac yn unol â chyngor milfeddyg deiliad y drwydded. Dylid trosglwyddo unrhyw gofnod o frechiad i'r prynwr. (e.e. cŵn bach, cathod bach, ffuredau ac ati)

<p>unrhyw afiechyd heintus neu ymledol, neu sy'n llawn parasitiaid, ddod i'r eiddo neu gael eu cadw yn yr eiddo oni bai fod hynny wedi'i ynysu'n effeithiol.</p> <p>c. Rhaid darparu cyfleusterau golchi dwylo ac / neu lanweithdra i staff a'r cyhoedd.</p>	<p>Dylai rhagofalon gynnwys cwarantin effeithiol i grwpiau o anifeiliaid sydd wedi cyrraedd o'r newydd.</p>
<p>5.4 Arwahanu</p> <p>a. Rhaid darparu cyfleusterau addas a digonol i arwahanu anifeiliaid sy'n sâl.</p>	<p>Os yw hynny'n bosibl, dylent fod ar wahân i fannau arddangos cyhoeddus i leihau straen.</p> <p>Mae angen i'r cyfleusterau fod yn briodol i'r rhywogaeth, y math o salwch neu anaf a bod yn ffafriol i gynorthwyo adferiad gorau posibl. Dan y rhan fwyaf o amgylchiadau dylai cyngor milfeddygol fod ar gael.</p>
<p>5.5 Goruchwyllo</p> <p>a. Rhaid rhoi sylw i'r holl anifeiliaid yn rheolaidd, fel sy'n briodol i'r rhywogaeth.</p> <p>b. Ni ddylai hyn fod yn llai nac unwaith y diwrnod dan unrhyw amgylchiadau.</p> <p>c. Lle mae grwpiau cymdeithasol / wedi'u cartrefu rhaid eu monitro yn ddyddiol i ganfod arwyddion o ymosodiadau neu fwlio.</p> <p>d. Rhaid i bob anifail sydd ar werth fod o fewn cyrraedd hawdd ac yn hawdd i staff eu harchwilio.</p>	<p>Mae 'rhoi sylw' yn cynnwys; gwiriad lles cyffredinol, bwydo / dyfrio, glanhau allan a thrafod fel sy'n berthnasol.</p> <p>Lle mae grwpiau cymdeithasol o anifeiliaid yn cael eu cadw mae posibilrwydd y bydd ymosodiadau a bwlio yn datblygu. Rhaid monitro'r grwpiau hyn yn ofalus er mwyn canfod problemau ar y cyfle cyntaf posibl a chymryd camau cywiro i atal anafiadau diangen neu straen.</p> <p>Mae'n angenrheidiol fod gan yr unigolyn sy'n monitro ddealltwriaeth gadarn o ymddygiad anifeiliaid sy'n cael eu cadw'n gymdeithasol a bod digon o amser i'w arsylwi fel bod modd iddynt ganfod unrhyw arwyddion cynnar fod problem.</p>
<p>5.6 Ymaddasu</p> <p>a. Rhaid rhoi cyfle addas i bob anifail ymaddasu cyn eu</p>	<p>Rhaid asesu'r cyfnod sydd angen fesul rhywogaeth unigol (gall</p>

<p>cynnig ar werth.</p> <p>b. Rhaid i hyn fod am gyfnod o ddim llai na 48 awr.</p>	<p>hyn fod yn hirach na 48 awr). Rydym yn argymhell yn gryf na ddylid eu harddangos yn ystod y cyfnod ymaddasu.</p> <p>Pwrpas y cyfnod ymaddasu yw caniatáu rhywogaethau penodol i ymadfer ar ôl cael eu cludo a chaniatáu amser i sicrhau eu bod yn addas i gael eu gwerthu. (Gallai straen y daith fod wedi gwaethygu unrhyw fater iechyd sylfaenol).</p>
<p>5.7 Gwerthu Anifeiliaid</p> <p>a. Ni ddylid gwerthu unrhyw famal neu ei dderbyn gan gyflenwr heb ei ddiddefnu nac, os yw wedi ei ddiddefnu, ar oed lle na ddylai fod wedi'i ddiddefnu. Gyda chreaduriaid nad ydynt yn famaliaid, mae'n rhaid eu bod yn gallu bwydo.</p> <p>b. Ni ddylai unrhyw anifeiliaid gydag abnormaledd amlwg, arwyddocaol a fyddai'n cael effaith o bwys ar ei ansawdd bywyd fod ar werth. Os oes amheuaeth, dylid derbyn barn filfeddygol.</p>	<p>Mae angen cefnogaeth eu mamau o ran ymddygiad a maethiad ar famaliaid ifanc. Gall fod yn niweidiol i'w iechyd a'u lles os yw'r gefnogaeth hon yn cael ei cholli'n rhy fuan yn oes y mamal ifanc.</p> <p>Gall gyngor milfeddygol gynnwys ewthanasia. Yn yr achosion hyn, ni ddylid gweithredu ewthanasia ar anifail dan unrhyw amgylchiadau heb law am mewn modd trugarog ac effeithiol. Bron ym mhob achos, Milfeddyg ddylai fod yn cyflawni hyn.</p>
<p>5.8 Cludo</p> <p>a. Rhaid trosglwyddo anifeiliaid i brynwyr mewn cynwysyddion addas, gwydn gydag awyru digonol ar gyfer y daith ddisgwyliedig.</p> <p>b. Wrth dderbyn anifeiliaid, rhaid i ddeiliad trwydded wneud pob ymdrech i sicrhau y caiff ei gludo mewn modd addas.</p> <p>c. Bydd unrhyw anifail a dderbynnir gan gyflenwr neu a ddsberthir yn ôl deddfwriaeth ac argymhellion presennol.</p>	<p>Dylai'r adwerthwr roi cyngor i'r prynwr ynglŷn â'r ffordd orau o gludo'r anifeiliaid maent wedi eu prynu er mwyn achosi cyn lleied o straen â phosibl.</p> <p>Mae'r deddfwriaeth yn diffinio gofynion i sicrhau 'Lles Anifeiliaid wrth eu Cludo'. Gallwch ofyn i'ch arolygydd trwyddedu am fanylion y rheoliadau presennol. Dyma rai esiamplau; caets(ys) wedi'i osod yn ddiogel ac awyru addas. Yn ogystal â'r gofyniad i ddal Awdurdod i Gludo.</p>

6. Hyfforddiant Staff a Gwybodaeth am Anifeiliaid

Mae disgwyl lefel isafswm o wybodaeth staff mewn amgylchedd siop anifeiliaid anwes. Mae angen i'r holl staff fod yn gymwys i edrych ar ôl yr anifeiliaid sy'n cael eu cadw yn yr eiddo a chynnig cyngor da i brynwyr mewn perthynas â'u hanifeiliaid newydd.

Amod y Drwydded	Canllaw
<p>6.1 Hyfforddiant</p> <ul style="list-style-type: none">a. Dylai fod gan o leiaf un aelod staff sy'n gweithio yn yr eiddo trwyddedig dystysgrif Rheoli Siop Anifeiliaid Anwes City and Guilds neu gymhwyster priodol arall, a bod ar gael yn ystod oriau agor. Gall hyn gynnwys bod ar gael dros y ffôn.b. Rhaid i'r rhai sydd eisoes wedi'u trwyddedu ac nad oes ganddynt gymhwyster priodol ddarparu tystiolaeth o brofiad priodol ac/neu wybodaeth cyn i rywogaethau ychwanegol gael eu cynnwys ar eu hatodlen.c. Rhaid i ddeiliad y drwydded lunio polisi hyfforddi ysgrifenedig ar gyfer yr holl staff parhaol, a bydd rhaid iddynt brofi fod hyfforddiant systematig yn cael ei roi.	<p>Gellir gofyn am gyngor manwl mewn perthynas â hyfforddiant a chymwysterau drwy'r gwahanol Gymdeithasau Masnach, y gellir eu teilwra ar gyfer y math o rywogaethau sy'n cael eu cadw.</p>
<p>6.2 Gwybodaeth</p> <ul style="list-style-type: none">a. Nid yw'n bosibl cadw anifail neu ei werthu oni bai fod deiliad y drwydded neu aelod staff yn gyfarwydd gyda gofal neu les yr anifail hwnnw.b. Rhaid i ddeiliad y drwydded neu weithiwr allu darparu cyngor addas i brynwyr anifeiliaid o safbwynt bwydo, cartrefu, trafod ategolion addas a gofal milfeddygol.c. Dylai'r Pet Care Trust Quality Assurance Manual neu gyfeirlyfr arall priodol (heb law am y rhai sydd ar werth)	<p>Dylai staff fedru ateb cwestiynau perthnasol a ofynnir iddynt i sicrhau y darperir ar gyfer lles yr anifail yn ei gartref newydd.</p>

fod ar gael bob amser i'w defnyddio gan staff.	
<p>6.3 Cyngor ar sut i Ofalu am Anifeiliaid</p> <p>a. Rhaid i daflenni a chyngor ar sut i ofalu am anifeiliaid fod ar gael am ddim i gwsmeriaid lle bod hynny'n briodol wrth iddynt brynu yn y siop.</p> <p>b. Lle bod angen, dylid rhoi cyngor i bobl sy'n prynu ategolion, ynglŷn â sut i'w cynnal a'u cadw a'u defnyddio.</p>	<p>Gall gwybodaeth hefyd fod ar ffurf y 'Codau Ymarfer' ar gyfer lles anifeiliaid penodol a gyhoeddir gan y Llywodraeth. Mae'n bosibl cael copiâu electronig o'r dogfennau hyn o wefan Llywodraeth Cymru.</p>

7. Cadw Cofnodion a Threfnau

Rhaid cadw neu arddangos cofnodion, hysbysiadau ac unrhyw waith papur ychwanegol ar gyfer anifeiliaid fel sy'n briodol.

Amod y drwydded	Canllaw
<p>7.1 Cofrestrau</p> <p>a. Rhaid cynnal cofrestr prynu anifeiliaid yn cynnwys enw, cyfeiriad a rhif ffôn y cyflenwr ar gyfer pob anifail.</p> <p>b. Rhaid cynnal cofrestr werthiant ar gyfer:</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) Cŵn bach; (ii) Cathod bach; (iii) Adar parotaidd; (iv) Primatiaid; a (v) Rhywogaethau sydd wedi'u cynnwys yn atodlen Deddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976 a rhaid i'r gofrestr fod ar gael i swyddogion awdurdodedig ei harchwilio. vi) *Pob rhywogaeth arall 	<p>Dylai'r rhywogaethau y cedwir cofrestr werthiant ar eu cyfer gael eu dynodi'n unigol a dylid cadw cofnod o'r bridiwr a manylion genedigaeth ac unrhyw gofnodion perthnasol o ran statws iechyd a thriniaethau milfeddygol hyd yn hyn. Dylai'r manylion hyn gael eu cynnwys gyda'r anifail pan eu bod yn cael eu gwerthu a dylid cadw copi ar y ffeil.</p> <p>D.S. – *Y rhywogaethau hynny sydd wedi'u cynnwys yn vi) Ar gyfer pob rhywogaeth arall, dim ond enw a chyfeiriad y prynwr sydd angen. Nid oes angen eu dynodi'n unigol.</p>

7.2 Gwerthu

- a. Ni ellir gwerthu unrhyw anifail i unrhyw berson dan 16 oed ond bai fod rhiant neu warcheidwad cyfreithiol gyda'r person hwnnw.
- b. Rhaid cadw Cofrestr Gwrthodiadau i ddynodi gwrthodiadau wrth werthu i unrhyw un y credir sy'n iau nac 16 oed (ac yn methu bodloni'r uchod) neu'n anaddas i gaffael rhywogaethau penodol.

Dan adran 11(1) Deddf Lles Anifeiliaid 2006 *Mae person yn cyflawni trosedd os yw'n gwerthu anifail i berson y mae ganddo achos rhesymol i gredu sy'n iau nac 16 oed. (mae eithriadau'n gymwys) (Cyfieithiad)*

Y senario a ffafrir yw y dylai unrhyw un dan 16 oed fod gyda rhiant neu warcheidwad i sicrhau fod caniatâd priodol yn cael ei roi a'u bod yn hyderus y caiff holl anghenion iechyd a lles yr anifeiliaid eu darparu ar eu cyfer.

Mae cofrestr gwrthodiadau yn ddangosydd da o drefn sydd mewn grym i ddangos ymwybyddiaeth gan staff o'u hymrwymiaidau mewn perthynas ag amodau'r drwydded a lles anifeiliaid dan eu gofal. Mae templed o'r gofrestr ar gael yn y 'The Pet Care Trust Quality Assurance Manual'.

8. Rhagofalon Tân a Rhagofalon eraill

Bydd rhagofalon argyfwng addas a threfnau ysgrifenedig yn bodoli a bydd yr holl staff yn ymwybodol ohonynt, gan gynnwys trefniadau ar gyfer gwagio anifeiliaid o'r adeilad. Rhaid i ofynion rhagofalon tân gydymffurfio gydag 'Atodlen B Rhagofalon Tân' sydd ynghlwm.

Amodau'r Drwydded	Canllaw
8.1 Cynllun Gwagio a. Rhaid arddangos cynllun gwagio mewn argyfwng mewn man amlwg sydd o fewn cyrraedd hawdd i'r holl staff a rhaid iddynt fod yn gyfarwydd ag o.	Dylai hwn gynnwys manylion ynglŷn â sut ac ym mha fodd y dylai'r anifeiliaid, y staff a'r cyhoedd wagio'r adeilad a'u cyfeirio at fan ymgynnull tân dynodedig. Ni ddylai hwn achosi risg diangen i unrhyw un mewn unrhyw fodd.
8.2 Rhagofalon Tân a. Rhaid darparu diffoddyddion tân a'u gosod yn unol â chymeradwyaeth y swyddog amddiffyn / atal tân lleol. b. Rhaid cynnal yr offer ymladd tân mewn cyflwr gweithredol da. c. Rhaid i ddeiliaid trwyddedau fedru profi eu bod yn cael eu cynnal gan unigolyn cymwys. d. Ni ddylai fod unrhyw rwystrau o flaen mynedfeydd ac allanfeydd ar unrhyw adeg. e. Rhaid arddangos rhif ffôn argyfwng o flaen y siop.	Mewn perthynas â rhagofalon tân, rhaid hefyd ystyried: Mynediad ar gyfer Ymladd Tân a Chyflenwadau Dŵr, Modd Dianc, Dim Ysmygu Arwyddion, Gosodiadau Trydanol, Offer a hysbysiadau ymladd tân. I gael manylion llawn, gweler Atodlen B sydd ynghlwm.
8.3 Daliwr Goriadau a Mynediad a. Rhaid i ddeiliad y drwydded neu ddaliwr goriadau dynodedig fod o fewn pellter rhesymol i'r eiddo a bod ar	Os oes argyfwng, mae angen cael cynllun wrth gefn os nad oes modd cysylltu â deiliad y drwydded neu reolwr y siop neu nad

<p>gael i ymweld â'r eiddo os oes argyfwng.</p> <p>b. Rhaid cyflwyno rhestr o ddalwyr goriadau i'r heddlu a'r gwasanaeth tân yn lleol.</p> <p>c. Lle bod siop anifeiliaid anwes yn rhan o eiddo masnachol mawr (h.y. mewn marchnad dan do neu ganolfan siopa) rhaid i ddeiliad y drwydded a'r dalwyr goriadau gael mynediad i'r prif adeilad bob amser.</p>	<p>yw'n gallu bod yn bresennol (e.e. dramor). Mae angen gweithredu'n brydlon tu allan i oriau agor i gael unrhyw siawns o ddiogelu anifeiliaid lle bo hynny'n bosibl, felly mae'n rhaid i ddaliwr goriadau fod ar gael ar bob adeg.</p> <p>Boed hynny oherwydd argyfwng neu er mwyn sicrhau lles yr anifeiliaid, mae angen mynediad i'r siop anifeiliaid anwes 24 awr y dydd.</p>
<p>8.4 Diogelwch Trydanol ac Argyfyngau Posibl</p> <p>a. Rhaid cynnal pob gosodiad a chyfarpar trydanol mewn cyflwr diogel a chydymffurfio gyda Rheoliadau Trydan yn y Gwaith 1989.</p> <p>b. Dylai cynllun wrth gefn fod mewn grym i ddarparu ymateb digonol os yw systemau cynnal bywyd hanfodol yn methu (e.e. dim cyflenwad trydan).</p>	<p>I gynorthwyo i gydymffurfio â'r rheoliadau gweler y nodiadau ar ddiwedd amodau'r drwydded.</p> <p>Mae'n bosibl y bydd angen ffynhonnell bŵer barhaol ar rai rhywogaethau i ddarparu cyflenwad golau, gwres neu ocsigen ac mae'n bosibl na fyddant yn goroesi (o gwbl neu ddim am hir iawn) heb gyflenwad trydan. Rhai esiamplau fyddai system larwm i rybuddio deiliad y drwydded am y diffyg trydan a defnyddio generadur wrth gefn.</p>

9. Deddf Lles Anifeiliaid 2006

Mae Adran 9 y Ddeddf uchod yn gosod dyletswydd gofal ar unigolyn sy'n gyfrifol am anifail. Mae'r Ddeddf yn nodi fod unigolyn yn cyflawni trosedd os nad ydynt yn cymryd camau rhesymol i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion yr anifail hwnnw. Er mwyn i chi gydymffurfio gyda'r dyletswyddau hyn, mae'r Cyngor wedi nodi gofynion ac arweiniad penodol y mae'n rhaid i chi eu dilyn.

Os yw'n bosibl fod y Dyletswydd Gofal hon wedi'i thorri dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006, gallai'r Cyngor, yn ôl ei ddisgresiwn, gyflwyno Hysbysiad Gwella i ddatrys y broblem.

Amod y Drwydded	Canllaw
<p>9.1 Dyletswydd Gofal</p> <ul style="list-style-type: none">a. Rhaid i bob deiliad trwydded fod yn llwyr ymwybodol o gynnwys Adran 9 Deddf Lles Anifeiliaid 2006 o safbwynt yr anifeiliaid maent yn cadw mewn siopau anifeiliaid anwes.b. Rhaid rhoi gwybod yn llawn i bob prynwr am eu dyletswydd gofal dan Adran 9 Deddf Lles Anifeiliaid 2006 o safbwynt yr anifail maent newydd ei brynu.c. Rhaid i ddeiliaid trwyddedau ddilyn codau lles perthnasol a gynhyrchwyd ar gyfer rhywogaethau penodol.	<p>Dylai deiliad y drwydded hefyd roi gwybod i staff sy'n gweithio yn y siop anifeiliaid anwes am gynnwys y ddeddfwriaeth a chodau lles.</p> <p>Gellid gwneud hyn drwy dynnu sylw'r prynwr at bosteri yn y sefydliad yn amlinellu'r ddeddfwriaeth honno ac / neu drwy dynnu sylw at y ddeddfwriaeth honno (ynghyd ag unrhyw Godau Ymarfer perthnasol (lle bo hynny'n berthnasol)) naill ai drwy roi copi i'r prynwr wrth werthu'r anifail, neu ddarparu manylion gwefan lle gall y prynwr lawrlwytho'r codau.</p> <p>Gymaint â'i bod yn bwysig i'r prynwyr fod yn ymwybodol o'u gofynion cyfreithiol o safbwynt yr anifail a brynir, cyhyd â'u bod yn y sefydliad, bydd gan ddeiliad y drwydded a staff hefyd 'ddyletswydd gofal' ac mae'r codau ymarfer yn arf gwerthfawr i helpu darparu hyn.</p>
<p>9.2 Cymdeithasu</p> <ul style="list-style-type: none">a. Dylai darparu cyfleoedd i bob rhywogaeth a gynigir ar werth gymdeithasu â phobl, tra'u bod yn yr eiddo cyn eu gwerthu.	<p>Lle bod anifeiliaid yn debyg o gael eu gafael yn eu 'cartref newydd' bydd cael staff yn eu gafael (fel sy'n briodol) yn galluogi trawsnewidiad haws i'w hamgylchedd newydd ac yn helpu lleihau straen. Byddai hefyd yn helpu fel dangosydd i benderfynu a fyddai anifail unigol yn anifail anwes addas ar gyfer prynwr penodol.</p>

<p>9.3 Protocol ar gyfer Stoc heb eu Gwerthu</p> <p>a. Rhaid i brotocol fod mewn grym ar gyfer ailgartrefu unrhyw anifeiliaid sydd heb eu gwerthu.</p> <p>b. Rhaid cadw cofnodion am y modd a'r rheswm dros ailgartrefu pob anifail unigol na werthwyd i'r cyhoedd.</p>	<p>Yn aml gall fod yn anoddach gwerthu anifeiliaid wedi iddynt fynd heibio'r 'cyfnod ciwt ac anwesol' ac mae rhai rhywogaethau, oherwydd eu natur, yn llai dymunol. Daw'r amser pan fydd rhaid gwneud penderfyniad 'busnes' ynglŷn â dyfodol anifail unigol o'r fath. Amgylchedd dros dro yn unig y dylai siop anifeiliaid anwes fod a gall bod mewn amgylchedd o'r fath yn rhy hir gael effaith feddyliol a chorfforol ar sawl rhywogaeth. Bydd sefydlu protocol yn helpu darparu tystiolaeth bod lles anifail unigol wedi'i ystyried.</p> <p>Dylid sicrhau cyngor gan filfeddyg ac / neu gorff masnachol a gydnabyddir gan y diwydiant.</p>
--	---

Argymhelliad	Canllaw
<p>Lefel Anhawster</p> <p>Dylai label pob anifail sydd ar werth gynnwys canllaw 'lefel anhawster' yn unol ag Atodlen 2 er mwyn i'r prynwyr fod yn ymwybodol o lefel gofynion pob rhywogaeth.</p>	<p>Mae arbenigwr Milfeddygol wedi cynhyrchu'r 'Lefel Anhawster' a gyfrifwyd drwy nodi sgoriau ar gyfer agweddau penodol yn ymwneud â rhywogaeth, er enghraifft: maint, hyd oes ac unrhyw ofynion arbenigol. Y categorïau a roddir iddynt yw Hawdd, Canolig ac Anodd gan ddibynnu ar eu sgôr.</p> <p>Ei fwriad yw cynorthwyo fel canllaw cyflym i brynwyr posibl a'u helpu i wneud penderfyniad mwy gwybodus o ran y math penodol o rywogaeth a fyddai'n addas iddyn nhw yn eu hamgylchiadau. Gallai hyn hefyd helpu gostwng y tebygrwydd y bydd anifeiliaid yn cael eu dychwelyd, eu gadael neu'n gorfod dioddef.</p>

MATERION ERAILL YN YMWNEUD Â GWEITHREDU SEFYDLIAD TRWYDDEDIG

A. TREFN APELIO

Deddf Anifeiliaid Anwes 1951 - Adran 1 (4)

Caniateir i unrhyw un a dramgwyddir gan wrthodiad awdurdod lleol i roi trwydded o'r fath, neu gan unrhyw amod y mae trwydded o'r fath yn ddarostyngedig iddo, apelio i'r Llys Ynadon; a chaiff y Llys roi pa bynnag gyfarwyddiadau fel yr ystyria sy'n briodol ynghylch y drwydded neu ei hamodau fel y gwêl yn briodol.

B. CANLLAW RHAGOFALON TÂN

Rhoddir y wybodaeth ganlynol i'r sawl â thrwydded, er mwyn cydymffurfio â gofynion rhagofalon tân sydd wedi'u manylu yn amodau trwyddedu'r Cyngor, sy'n gofyn am gymryd camau priodol i ddiogelu anifeiliaid mewn achos tân neu unrhyw argyfwng arall.

Bwriad y canllaw yw sicrhau bod y ffyrdd o ddianc a rhagofalon tân cysylltiedig yn ddigonol i breswylwyr dynol. Dylid cadw mewn cof y gallai deddfwriaeth arall ymdrin â gofynion diogelwch tân i bobl.

Dylid ystyried y materion canlynol :

1. Mynediad at Gyflenwadau Diffodd Tân a Dŵr – Dylid darparu mynediad da at offer diffodd tân (lled o 3.7m ar y lleiaf) i bob hydrant a ffynonellau dŵr eraill a dylid darparu llawr caled. Dylid dangos bwrdd gydag enw'r eiddo yn glir ger y mynediad ffordd agosaf.
2. Ffyrdd o Ddianc – Dylid dylunio llwybrau dianc i anifeiliaid sy'n ffordd syth allan o'r adeiladau, gyda chyn lleied â phosibl o gymorth dynol. Dylid trefnu drysau llocliau fel y gall anifeiliaid adael yn sydyn a dylid osgoi troadau llym, rhwystrau a rampiau ar y llwybrau dianc cyn belled â phosibl.
 - a) Dylai'r eiddo gael allanfeydd sydd â digon o led ac uchder i ganiatáu mynediad hawdd at yr anifeiliaid ar bob adeg.
 - b) Dylid gallu agor allanfeydd yn hawdd o'r tu mewn heb ddefnyddio gorriad.
 - c) Os oes angen, dylid gwneud darpariaeth i gael gafael ar ddeiliad gorriad yn sydyn.

Mewn adeiladau sy'n fwy na 18 metr mewn lled neu le ceir nifer fawr o anifeiliaid, dylid darparu dwy allanfa a'u lleoli cyn belled i ffwrdd o'i gilydd â phosibl. Dylai'r pellter teithio gael ei gyfyngu i 45 metr.

3. Arwyddion Dim Ysmygu – Dylid dangos Arwyddion Dim Ysmygu ym mhob ardal sydd gyda gwair a gwellt a lle bo'n ymarferol, dylid cymryd rhagofalon yn erbyn mynediad heb awdurdod, yn enwedig gan blant.
4. Gosodiadau trydanol – Dylid glanhau gosodiadau trydanol gan gynnwys lampau, yn rheolaidd fel nad ydyw llwch yn casglu. Dylid gosod a diogelu offer trydanol, gwresogyddion ac ati fel eu bod yn bellter diogel o unrhyw ddeunydd gwely fflamadwy.
5. Offer Diffodd Tân
 - a. Diffoddwyr Tân Cludadwy – Mae'r canlynol yn cael eu hargymell ar y lleiaf:
 - Mae adeiladau nad ydynt yn fwy na 200 metr sgwâr mewn arwynebedd yn gofyn am o leiaf 2x9 litr o ddiffoddwyr dŵr, i adeiladau dros 200 metr sgwâr mae angen diffoddwr tân ychwanegol am bob 200 metr sgwâr ychwanegol neu ran ohono.
 - Rhaid i ddiffoddwyr tân cludadwy ateb gofynion BS EN 3 a chael eu gosod a'u cynnal yn unol â'r argymhellion a roddir yn BS 5306.
 - Yn dibynnu ar ganlyniad eich asesiad risg tân, gallai fod yn bosibl lleihau hyn i un diffoddwr mewn eiddo bach iawn, gyda gofod llawr sy'n llai na 90m².
 - **Ni ddylid** defnyddio diffoddwyr tân sy'n cynhyrchu sŵn uchel, e.e. CO₂, neu gymylau mawr o bowdr sych, yn agos at anifeiliaid.
 - b. Peipiau Dŵr – Gellir darparu peipiau dŵr fel dull opsiwn gwahanol i ddiffoddwyr tân cludadwy. Dylid cael un beipen ar gyfer bob 800 metr sgwâr o arwynebedd neu ran ohono ar y lleiaf. Fe ddylai gydymffurfio â BS 5306: Rhan 1. Mae peipiau golchi yn dderbyniol os oes llif rheolaidd o ddŵr sy'n gallu cynhyrchu ffrwd dŵr o 5 metr ar y lleiaf. Ni ddylai peipiau dŵr fod yn fwy na 45m o hyd a dylid eu lleoli fel y gellir mynd â'r chwistrell o fewn i 6m o bob rhan o'r eiddo sydd wedi'i ddiogelu.
6. Rhybuddion Tân – Dylai pob aelod o staff yn y sefydliad fod yn gyfarwydd gyda pha gamau gweithredu y dylid eu cymryd mewn achos tân. Rhaid darparu rhybudd ysgrifenedig ac amlwg yn dynodi'r camau i'w cymryd mewn achos tân a lleoliad y ffôn agosaf. Gall y rhybudd hwn gynnwys y canlynol:

“Wrth ddarganfod tân, sicrhewch fod yr adeilad yn cael ei wagio.
Ffoniwch y Frigâd Dân {mae'r ffôn agosaf yn

Ceisiwch ddiffodd y tân drwy ddefnyddio'r offer diffodd tân a ddarperir, os yw hi'n ddiogel i wneud hynny ac ati"

7. Cyfeirnod Map O/S – Dylid cael Cyfeirnod Map Arolwg Ordnans ar gyfer yr eiddo a'i arddangos gyda'r Rhybudd Tân a ddarperir.

Mae'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 yn gofyn bod yr holl ragofalon tân hanfodol yn cael eu rhoi ar waith i ddiogelu unigolion perthnasol rhag ofn y bydd tân yn yr eiddo ac o'i gwmpas, y mae'r ddeddfwriaeth yn gymwys iddo.

Mae'r cyfrifoldeb am gydymffurfio â'r gorchymyn gyda'r 'unigolyn cyfrifol'. Mewn gweithle, y cyflogwr yw hwn ac unrhyw unigolyn arall a all fod â rheolaeth o unrhyw ran o'r eiddo, e.e. y deiliad neu'r perchennog. Mewn unrhyw eiddo arall yr unigolyn/unigolion mewn rheolaeth o'r eiddo fydd yn gyfrifol.

Rhaid i'r unigolyn cyfrifol:

Gynnal Asesiad Risg Tân a rhaid cofnodi'r canfyddiadau arwyddocaol os oes pump neu fwy o unigolion yn cael eu cyflogi, os yw'r eiddo wedi'i drwyddedu neu os yw hysbysiad newidiadau ar waith.

I'ch cynorthwyo chi ymhellach, mae'r Fire Safety Guide to Animal Premises and Stables (ISBN: 978 1 85112 884 6) ar gael o'r Stationary Office neu drwy wefan yr Adran Gymunedau a Llywodraeth Leol (www.communities.gov.uk).

C. IECHYD A DIOGELWCH

Mae Deddf Iechyd a Diogelwch yn gymwys i bob busnes, waeth bynnag pa mor fychan ydyw. Fel cyflogwr neu unigolyn hunan gyflogedig, rydych yn gyfrifol am iechyd a diogelwch yn eich busnes. Mae angen i chi gymryd y camau cywir i leihau'r risgiau o beryglon gweithle a darparu amgylchedd gwaith diogel.

Gweler y canllaw o'r enw "Health and safety made simple". Mae'r canllaw hwn yn gwneud bywyd yn haws i chi drwy ddarparu'r wybodaeth sylfaenol ynglŷn â beth rydych angen ei wneud mewn un lle. Bydd yn eich helpu i roi cychwyn arni wrth reoli iechyd a diogelwch yn eich busnes.

Efallai y bydd angen i chi wneud rhai pethau ychwanegol gydag ambell i weithgaredd i sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r gyfraith. Gellir cael canllawiau pellach ar bynciau penodol fel rheoli asbestos, atal salwch ar ôl cysylltu ag anifail ac ati, a modelau asesiadau risg ar gael ar-lein ar www.hse.gov.uk. Gallwch hefyd gysylltu â'r Tîm Iechyd a Diogelwch yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar 01492 575283 a gofynnwch am y swyddog dyletswydd neu anfonwch e-bost atom ar gwasanaethau.rheoleiddio@conwy.gov.uk

Gellir llwytho'r daflen "Health and Safety made simple" i lawr drwy ddilyn y ddolen gyswllt ganlynol:
<http://www.hse.gov.uk/pubns/indg449.pdf>